Canllawiau Cred – Pennod 2

2

YN FY ENW I

Ar ddiwedd y bennod ddiwethaf buom yn ystyried y newydd rhyfeddol a roes Iesu Grist i'w ddisgyblion. Ar ôl ei ymadawiad fe fyddai'r sawl a fyddai'n credu ynddo ef yn gwneud y gweithredoedd y byddai ef yn eu gwneud. Y ffordd y deuent i wybod beth fyddai'r gweithredoedd hynny fyddai trwy'r gweddïau a weddïent 'yn ei enw': 'A pha beth bynnag a ofynnoch yn fy enw i, hynny a wnaf, fel y gogonedder y Tad yn y Mab. Os gofynnwch ddim yn fy enw i, mi a'i gwnaf' (Ioan 14:13-14).

Cyfeiriwyd at y ffaith fod llawer iawn o gredinwyr yn terfynu eu gweddïau – bron â bod yn ddieithriad – trwy ddweud eu bod yn gweddïo'r gweddïau hynny 'yn enw Iesu Grist'. Ac eto prin y clywn am neb o'r cyfryw yn dangos unrhyw anesmwythyd am na chaniatawyd y deisyfiadau hynny. Ni allwn ond dod i'r casgliad nad ydynt wedi cymryd at eu calon ei bod yn amhosibl gweddïo 'yn yr enw' hwnnw heb i'r hyn a ofynnwn amdano ddigwydd. Yr Arglwydd Iesu Grist ei hun sy'n dweud hynny yn yr adnodau hyn yr ydym yn eu hystyried yn awr.

Awgrymwyd ymhellach fod llawer wrth ddefnyddio'r ymadrodd yn ei gyplysu â'r gosodiad 'yn haeddiant Iesu Grist', ac mai'r ystyriaeth honno fyddai'r ystyriaeth bennaf, os nad yr unig ystyriaeth, wrth ddefnyddio'r ddau ymadrodd gyda'i gilydd fel hyn. Dweud yr oeddent, mewn gwirionedd, nad dod 'yn eu henwau eu hunain', gan gredu y caent wrandawiad ar sail yr hyn oeddent hwy, a wnaent, ond dod yn hytrach gan gredu y caent fynedfa at Dduw 'yn enw ac yn haeddiant Iesu Grist', hynny yw 'ynddo ef' ac wedi eu gorchuddio â'i gyfiawnder.

Yn ei sylwadau ar Ioan 14:13 dywed Matthew Henry mai felly y mae deall geiriau Iesu Grist: 'Pledio ei haeddiant a'i eiriolaeth a dibynnu ar y ple hwnnw . . . Os gofynnwn yn ein henwau ein hunain, ni allwn ddisgwyl cyflawni pethau oherwydd, a ninnau'n ddieithriaid, does gennym ddim enw yn y nefoedd; a ninnau'n bechaduriaid, enw gwael sydd i ni yno, ond mae enw Crist yn enw da, adnabyddus iawn yn y nefoedd ac yn werthfawr dros ben.'

Fe fyddem yn awgrymu y byddai'n anodd iawn dod o hyd i unrhyw Gristion *nad yw'n gweddïo yn yr ysbryd hwn lle mae ei ddyfodfa at Dduw yn y cwestiwn.* Ond nid am ddyfodfa y soniai Iesu Grist. Am beth ynteu? Am weddïau penodol a fyddai'n sicr o gael eu gwrando am eu bod wedi eu ceisio 'yn enw Iesu Grist'. Fel y mae'r cysylltair ar ddechrau adnod 13 yn arwyddo, esbonio yr oedd Iesu Grist yn adnodau 13 a 14 sut y gallai'r rhai a fyddai'n credu ynddo ef roi mewn gweithrediad yr hyn a gyhoeddodd yn adnod 12. Yr hyn a ddywedodd yn adnod 12 oedd y byddai'r sawl a fyddai'n credu ynddo ef yn gwneud yr hyn y byddai ef yn ei wneud – 'y gweithredoedd yr wyf fi yn eu gwneuthur, yntau hefyd a'u gwna'. Ond sut y caent hwy wybod beth fyddai ef yn ei wneud fel y gallent wneud y peth hwnnw? Yr esboniad a roes Iesu Grist oedd: 'A pha beth bynnag a ofynnoch yn fy enw i, hynny a wnaf fel y gogonedder y Tad yn y Mab. Os gofynnwch ddim yn fy enw i, mi a'i gwnaf.'

Pe baem yn gofyn i'r Cristnogion cydwybodol hynny sy'n defnyddio'r ymadrodd 'yn enw ac yn haeddiant Iesu Grist' a dderbyniasant yr hyn y buont yn gofyn amdano (am eu bod wedi gweddïo amdano 'yn enw' yn ogystal ag yn haeddiant Iesu Grist) yr ateb mwyaf tebygol fyddai nad oeddent wedi meddwl ar hyd y llinellau hynny – dim ond gobeithio'r gorau.

Nid rhinwedd ar ran y personau hynny fyddai iddynt ateb felly. Profi a wnâi nad oeddent wedi dechrau deall yr hyn a addawodd Iesu Grist. Amhosibl yw i ni weddïo 'yn enw Iesu Grist' heb i'r peth hwnnw ddigwydd. 'A pha beth bynnag a ofynnoch yn fy enw i, hynny a wnaf . . . Os gofynnwch ddim yn fy enw i, mi a'i gwnaf.' Yng ngoleuni'r addewidion hyn, dylem deimlo'n anfodlon os nad yw'r gweddïau hynny'n cael eu caniatáu. Os nad yw hynny'n digwydd, cwbl naturiol fyddai inni benderfynu gwneud yn siwr ein bod wedi deall beth a olygai Iesu Grist wrth yr ymadrodd – gweddïo 'yn ei enw'.

Yn y cyfamser, gan mai ein bwriad bob tro y gweddïwn yw dweud ein bod yn dod gan ddisgwyl y cawn ein gwrando am inni roi ein hymddiriedaeth yn nghyfiawnder Iesu Grist, oni fyddai'n llawer gwell defnyddio ymadrodd fel 'yng Nghrist Iesu ein Harglwydd' neu 'trwy ein Harglwydd Iesu Grist': geiriau sy'n dweud yn union yr hyn a olygwn, ac ychwanegu ar bob cyfrif 'yn haeddiant Iesu Grist'. Ac yna gwneud yn siwr ein bod yn deall beth yn union a olyga'r ymadrodd 'yn fy enw i' pan gaiff ei ddefnyddio yn ein

gweddïau. Os na wnawn hyn, y perygl yw y gallwn nid yn unig fod yn camddefnyddio'r ymadrodd ond hefyd yn amddifadu ein hunain o un o'r gwirioneddau gwerthfawrocaf a roes Iesu Grist i'w ddisgyblion mewn perthynas â gweddïo.

Beth a olyga'r ymadrodd: gweddïo 'yn enw Iesu Grist'? Y ffordd orau i ddod o hyd i'r ateb yw trwy ofyn cwestiwn arall. Beth a olyga'r ymadrodd pan ddefnyddir ef yn yr Ysgrythur i ddweud bod rhywun yn gwneud unrhyw beth 'yn enw' rhywun arall? Mae'r ateb yn eithaf amlwg. Yr un yw'r ystyr yn union â'r ystyr a rown iddo heddiw ar lafar gwlad: gwneud rhywbeth dros rywun arall, wedi iddynt gael eu gorchymyn neu eu hawdurdodi gan y person hwnnw i wneud hynny. Fel hyn y mae W. Wilson yn ei fynegi yn ei gyfrol *Old Testament Word Studies* (Macdonald, 1990): 'Gweithredu yn enw rhywun arall yw gweithredu yn unol â'i gomisiwn neu ei awdurdod, boed hynny'n wirionedd neu'n ffug.'

Ystyriwn i ddechrau bedair enghraifft o'r ymadrodd yn cael ei ddefnyddio yn yr Hen Destament. Yn gyntaf, y geiriau a lefarodd Moses wrth Dduw wedi iddo ufuddhau i'w orchymyn a mynd at Pharo i beri iddo ryddhau'r genedl a chaniatáu iddynt fyned i'r anialwch 'i gadw gwyl i'w Harglwydd'. Canlyniad gwneud hynny fu i Pharo, yn hytrach na'u rhyddhau, ychwanegu at eu beichiau yn ddirfawr nes peri i'r Israeliaid gwyno'n enbyd yn erbyn Moses ac Aaron. Meddai Moses yn ei benbleth wrth Dduw, 'O Arglwydd, paham y drygaist y bobl hyn? i ba beth y'm hanfonaist? Canys er pan ddeuthum at Pharo, *i lefaru yn dy enw di,* efe a ddrygodd y bobl hyn; a chan waredu ni waredaist dy bobl' (Ecsodus 5:22). 'Y cyfan wnes i oedd gwneud yr hyn a ddywedaist ti wrthyf am ei wneud. Yn dy enw di, drosot ti ac ar dy archiad, yr euthum i at Pharo a rhoi'r genadwri iddo, air am air, fel y cefais hi oddi wrthyt ti. Ti sy'n gyfrifol am hyn. Ond pam?'

Yn ail, ystyriwn yr enghreifftiau o'r ymadrodd 'yn fy enw' sy'n dilyn ei gilydd fel cadwyn yn y geiriau a lefarodd Duw wrth Moses ynghylch y Proffwyd y byddai'n ei godi 'o'th blith dy hun, o'th frodyr dy hunan' a'i roi i'w bobl: 'Codaf Broffwyd iddynt o fysg eu brodyr, fel tithau, a rhoddaf fy ngeiriau yn ei enau ef; ac efe a lefara wrthynt yr hyn oll a orchmynnwyf iddo. A phwy bynnag ni wrando ar fy ngeiriau, y rhai a lefara efe *yn fy enw*, myfi a'i gofynnaf ganddo. Y proffwyd hefyd, yr hwn a ryfyga lefaru *yn fy enw* air ni orchmynnais iddo ei lefaru, neu yr hwn a lefaro yn enw duwiau dieithr; rhodder y

proffwyd hwnnw i farwolaeth. Ac os dywedi yn dy galon, Pa fodd yr adnabyddwn y gair ni lefarodd yr Arglwydd? Yr hyn a lefaro'r proffwyd hwnnw *yn enw yr Arglwydd,* a'r gair heb fod, ac heb ddyfod i ben, hwnnw yw y gair ni lefarodd yr Arglwydd; y proffwyd a'i llefarodd mewn rhyfyg: nac ofna ef' (Deut. 18:18-22).

Yn drydydd, ystyriwn y defnydd a wnaeth Dafydd o'r ymadrodd syml hwn sy'n taflu goleuni gwerthfawr iawn ar beth oedd cyfrinach ei hyder wrth fynd i gyfarfod Goliath. 'Yna y dywedodd Dafydd wrth y Philistiad, Ti ydwyt yn dyfod ataf fi â chleddyf, ac a gwaywffon, ac a tharian; a minnau ydwyf yn dyfod atat ti *yn enw Arglwydd y lluoedd,* Duw byddinoedd Israel, yr hwn a geblaist ti. Y dydd hwn y dyry yr Arglwydd dydi yn fy llaw i, a mi a'th drawaf di, ac a gymeraf ymaith dy ben oddi arnat; ac a roddaf gelanedd gwersyll y Philistiaid y dydd hwn i ehediaid y nefoedd, ac i fwystfilod y ddaear; fel y gwypo yr holl ddaear fod Duw yn Israel. A'r holl gynulleidfa hon a gânt wybod nad â chleddyf, nac â gwaywffon y gwared yr Arglwydd: canys eiddo yr Arglwydd yw y rhyfel, ac efe a'ch rhydd chwi yn ein llaw ni' (1 Samuel 17:45-47). Yr hyn a roes i Dafydd yr hyder i wynebu'r fath gawr o wrthwynebwr oedd ei fod yn gwybod ei fod yno ar ran Duw Israel. Duw oedd yn gyfrifol am y ffaith ei fod yn sefyll yno o'i flaen. Hawdd iawn o dan yr amgylchiadau hynny fyddai trechu Goliath.

Yn olaf, ystyriwn weddi Asa pan aeth allan i gyfarfod 'mil o filoedd o luoedd Sera yr Ethiopiad'. 'Ac Asa a waeddodd ar yr Arglwydd ei Dduw, ac a ddywedodd, O Arglwydd, nid yw ddim i ti gynorthwyo, pa un bynnag ai gyda llawer, ai gyda'r rhai nid oes ganddynt gryfder: cynorthwya di ni, O Arglwydd ein Duw; canys pwyso yr ydym ni arnat ti, ac *yn dy enw di* y daethom yn erbyn y dorf hon: O Arglwydd, ein Duw ni ydwyt ti, na orfydded dyn i'th erbyn' (2 Cronicl 14:11). Fe fyddai i Sera eu trechu yn gyfystyr â'i fod wedi trechu Duw oherwydd 'yn enw Duw', ar ei ran ac ar ei archiad, yr aethant i ryfel yn ei erbyn.

Diddorol yw sylwi, mewn perthynas â phob un o'r enghreifftiau hyn a gymerwyd o'r Hen Destament, nad yw Matthew Henry *unwaith* yn dehongli'r ymadrodd 'yn ei enw' i ddynodi 'bod yn dderbyniol gyda Duw oherwydd eu bod yn ymddiried yn haeddiant rhywun arall am y derbyniad hwnnw' sef y ffordd yr eglura'r ymadrodd yn ei sylwadau ar Ioan 14:13 a ddyfynnwyd gennym. Ym mhob achos dehongla'r ymadrodd i olygu cynrychioli dymuniadau neu orchmynion y person a gomisiynodd y weithred. Dyfynnwn

ei eiriau ef ei hun. Yr oedd i Moses honni ei fod wedi gweithredu yn enw Duw (Ecsodus 5:23) yn golygu ei fod wedi cyflawni 'gweithred a wnaed yn ôl cyfarwyddyd dwyfol'. Am Samuel, meddai, mae'r ymadrodd yn golygu ei fod 'Yn derbyn ei awdurdod oddi wrth Dduw' (1 Samuel 17:45). Yr oedd i Asa hawlio eu bod wedi mynd i gyfarfod eu gelynion 'yn enw Duw' yn golygu eu bod wedi gweithredu 'yn unol â'r warant a gawsom oddi wrthyt ti' (2 Cronicl 14:11). Cyffelyb yw ei eglurhad y byddai i'r proffwyd siarad yn enw Duw yn golygu 'Pob neges a oedd gan Dduw i'w hanfon i feibion dynion fe fyddai yn eu hanfon trwyddo ef, a byddai'n rhoi cyfarwyddiadau llawn iddo beth i'w ddweud ac i'w wneud fel proffwyd.' Ni allai dim fod ymhellach oddi wrth y syniad fod gweithredu yn enw rhywun arall – yn yr achos hwn, Iesu Grist – yn golygu ein bod yn ymddiried yng nghyfiawnder Iesu Grist am dderbyniad gyda Duw.

Er bod yn y Testament Newydd (fel yn yr Hen Destament) nifer helaeth o enghreifftiau o'r ymadrodd yn cael ei ddefnyddio, bodlonwn ar gyfeirio at bedwar ohonynt yn unig, ac, ar wahân i un eithriad, cyfyngwn ein hunain i Efengyl Ioan.

(a) 'Myfi a ddeuthum *yn enw* fy Nhad, ac nid ydych yn fy nerbyn i. Os arall a ddaw *yn ei enw ei hun,* hwnnw a dderbyniwch' (Ioan 5:43). Tystiolaeth gyson Iesu Grist oedd mai ei Dad a'i hanfonodd, a'i fod yntau wedi dod i'n byd ar ei ran a throsto.

(b) 'Y pethau hyn a ddywedais wrthych, a mi yn aros gyda chwi. Eithr y Diddanydd, yr Ysbryd Glân, yr hwn a enfyn y Tad *yn fy enw i,* efe a ddysg i chwi bob peth, ac a ddwg ar gof i chwi bob peth a ddywedais i chwi' (Ioan 14:25-26). Cyfeirio y mae Iesu Grist yn y fan yma nid ato'i hun yn anfon yr Ysbryd Glân, fel a ddigwyddodd ar ddydd y Pentecost, ond at y Tad yn ei anfon ar ei ran. Mae'r ymadrodd 'yn fy enw' yn rhyfeddol o bwysig os ydym am wneud cyfiawnder â'i eiriau. Cawn achos i gyfeirio at yr adnod hon yn ddiweddarach.

(c) 'Tra bûm gyda hwynt yn y byd, mi a'u cedwais *yn dy enw*.' Ystyriaeth annwyl a chysegredig iawn gan Iesu Grist, wrth iddo ofyn i'w Dad nefol 'gadw' ei ddisgyblion, oedd ei fod ef wedi gwneud hynny drosto ac ar ei ran tra oedd gyda'i ddisgyblion ar y ddaear. 'Y rhai a roddaist i mi a gedwais, ac ni chollwyd ohonynt ond mab y golledigaeth, fel y cyflawnid yr Ysgrythur' (Ioan 17:12). Byddwn yn cyfeirio at yr adnod hon hefyd yn ddiweddarach.

(ch) Fel y dynesai dydd ei ymadawiad a'i ddychweliad at y Tad, bu cryn drafod ymhlith ei ddisgyblion pwy ohonynt hwy fyddai'r mwyaf (Luc 9:46-48). Wedi galw plentyn bach ato, meddai Iesu Grist, 'Pwy bynnag a dderbynio'r bachgennyn hwn *yn fy enw i,* sydd yn fy nerbyn i; a phwy bynnag a'm derbynio i, sydd yn derbyn yr hwn a'm hanfonodd i.' Beth sy'n newid gweithred mor syml â hyn fel bod Iesu Grist yn ei chyfrif yn weithred a wnaed iddo ef a thrwyddo ef i'r Tad? Nid oes ond un esboniad yn bosibl. Fe'i gwnaed 'yn enw Iesu Grist', hynny yw drosto neu ar ei ran. Felly y byddai Iesu Grist yn cydnabod gweithred o'r fath.

Yr un ystyr yn union

Os 'gwneud rhywbeth ar ran rhywun arall' neu 'wneud rhywbeth wedi i'r person hwnnw ein hawdurdodi i'w wneud drosto' yw ystyr yr ymadrodd pan ddefnyddir ef yn gyffredinol yn yr Ysgrythur, beth yw ei ystyr pan gaiff ei ddefnyddio gan Iesu Grist mewn cysylltiad â gweddi? Neu, a'i osod yn well, pa weddïau yw'r gweddïau hynny y gellir dweud amdanynt ein bod yn eu gweddïo 'yn enw Iesu Grist'? Ni phetruswn ateb: yr un ystyr yn union. Gweddïau ydynt y bydd gennym fesur o hyder mai'r gweddïau hynny fyddai ein Harglwydd Iesu Grist yn dymuno inni eu gweddïo: gweddïau a fydd yn ffrwyth cymundeb ac ymgynghoriad ag ef. Yn lle ein bod ni'n meddwl am weddïo fel cyfle i berswadio'r nefoedd i ganiatáu yr hyn a gredwn ni a fyddai'n fuddiol, y nefoedd yn hytrach yn cael cyfle i'n perswadio ni beth fyddai'n briodol inni ofyn amdano. Gweddïau ydynt y byddwn, yn betrusgar hwyrach ond eto gyda gradd o hyder, yn teimlo y gallwn eu priodoli iddo ef: gweddïau a roddwyd i ni gan Atebwr y gweddïau ei hun. Eu tarddle yw'r nefoedd.

Wrth ddod i'r casgliad hwn ynghylch unrhyw weddi a weddïwn, sylweddolwn y gallwn yn hawdd fod yn gwneud camgymeriad. Y cyfan a ddigwyddodd mewn gwirionedd oedd ein bod wedi perswadio ein hunain ein bod wedi gweddïo'r gweddïau hynny 'yn enw Iesu Grist' heb i hynny fod yn wir. Gall ddigwydd yn hawdd. Dyna paham y dylem fod yn ochelgar dros ben wrth ddefnyddio'r ymadrodd 'yn enw Iesu Grist'. *Peth mawr yw priodoli unrhyw beth i berson arall heb i'r person hwnnw gael dim i'w wneud â'r peth.*

Y llwybr diogelaf o ddigon yw gwneud ymgais wirioneddol i wneud mor siwr ag y gallwn ein bod wedi cyrraedd y fan honno. Yna, er i ni gredu, neu o leiaf obeithio, bod hynny'n wir, peidio â'i honni ar weddi, ac yn sicr peidio â'i honni wrth neb arall wedi gweddïo, *hyd nes gweld a ganiateir y deisyfiadau hynny ai peidio. Nodwedd y gweddïau a weddïwn yn enw Iesu Grist yw bod yr hyn a ofynnwn amdano yn cael ei ganiatáu'n ddi-feth.* 'Os gofynnwch ddim yn fy enw i, hynny a wnaf.'

Cyn bod neb yn cael ei demtio i wrthod neu i ddiystyru'r dehongliad hwn, da fyddai inni ein hatgoffa ein hunain ein bod i wneud popeth, medd Gair Duw, 'yn enw Iesu Grist'. 'A pha beth bynnag a wneloch, ar air neu ar weithred, gwnewch bob peth yn enw'r Arglwydd Iesu, gan ddiolch i Dduw a'r Tad trwyddo ef' (Colosiaid 3:17). I ddisgyblion Iesu Grist, nid rhywbeth opsiynol yw gweithredu 'yn enw Iesu Grist'. Felly yr ydym i fyw, ac felly, hyd y gallwn, yr ydym i weddïo.

Gwaetha'r modd, mae yna duedd yn y rhan fwyaf, os nad y cyfan, o'r esboniadau ar Efengyl Ioan i roi i'r ymadrodd 'yn fy enw i', pan ddefnyddir ef gan Iesu Grist mewn cysylltiad â gweddi, ystyr lawer mwy cymhleth na'r ystyr a roddir iddo pan ddefnyddir ef mewn cysylltiadau eraill yn yr Ysgrythur ac yn nysgeidiaeth Iesu Grist ei hun. (Gallai hyn yn hawdd fod yn ganlyniad ofni y math o honiadau anghyfrifol y gellid eu gwneud gan rai, megis y rhai yr ydym newydd gyfeirio atynt.) Effaith gynyddol eu dehongliadau yw bod yr ymadrodd yn peidio â chyfeirio at weddïau sy'n adlewyrchu meddwl neu ewyllys Iesu Grist ei hun mewn perthynas â sefyllfa arbennig. Honnant ei fod yn cyfeirio at weddïau a fyddai'n gynrychioliadol o berson Iesu Grist, pwy ydoedd a beth a wnaeth, *yn hytrach na bod yn gynrychioliadol ohono ef ei hun fel person byw*. Fe gaiff y dyfyniadau canlynol wasanaethu fel enghreifftiau:

(a) Leon Morris yn ei esboniad ar Efengyl Ioan, t. 646: 'Ni olyga "gweddïo yn ei enw" yn syml ein bod yn defnyddio'r enw fel fformiwla. Golyga fod gweddi i fod yn gyson â'r cyfan y saif yr enw hwnnw drosto. Gweddi ydyw sy'n deillio o ffydd yng Nghrist, gweddi sy'n fynegiant o undeb â'r cyfan o'r hyn y saif Crist drosto, gweddi a geisia arddangos Crist ei hun.'

(b) W. Hendriksen yn ei esboniad ar Efengyl Ioan, t. 274: ‘Gweddi yn enw Crist yw gweddi sydd mewn cytgord â pha beth bynnag a ddatguddiodd Iesu Grist amdano’i hun.’

(c) Arthur W. Pink yn ei esboniad ar Efengyl Ioan, t. 366: ‘Golyga ein bod yn gweddïo yn ei Berson, hynny yw, yn sefyll yn ei le, fel pe baem wedi ein huniaethu’n llawn ag ef, gofyn yn rhinwedd ein huniad ag ef. Pan fyddwn mewn gwirionedd yn gofyn yn enw Crist, efe yw’r deisyfwr mewn gwirionedd. Yn ail, golyga felly ein bod yn pledio gerbron Duw haeddiant ei Fab bendigaid. Pan ddefnyddia dynion enw un arall fel eu hawdurdod dros fynd at rywun neu fel sail eu hapêl, fe fydd y sawl y gofynnir y deisyfiad ganddo yn edrych y tu hwnt i’r sawl a gyflwynodd y cais at yr hwn y bydd er ei fwyn yn caniatáu’r deisyfiad. Felly, gyda phob dyledus barch, gallwn mewn gwirionedd ddweud, pan fyddwn yn gwir ofyn yn enw Crist, y bydd y Tad yn edrych heibio i ni ac yn gweld y Mab fel y gwir ddeisyfwr. Yn drydydd, golyga ein bod yn gweddïo’n unig am yr hyn sydd yn gydnaws â’i holl berffeithrwydd a’r hyn fydd er ei ogoniant.’

(d) D.A. Carson yn ei lyfr ar Efengyl Ioan, t. 497: ‘Gweddïau yn ei enw yw gweddïau a offrymir mewn cytgord llwyr â’r hyn oll y saif ei enw drosto, a chan gydnabod mai’r unig ddyfodfa at Dduw y bydd y sawl fydd yn gweddïo yn ei mwynhau, yr unig ffordd at Dduw, yw Iesu Grist ei hun.’

Gyda’r bwriad (sydd i’w gymeradwyo) o ymhelaethu ar ystyr yr ymadrodd fel y gellid ei ddeall yn haws, y duedd yw lleihau os nad anwybyddu’n llwyr yr hyn a fuasai’n sicr o fod yr elfen bwysicaf ym meddwl Iesu Grist, sef y byddai’r disgyblion yn abl i briodoli’r deisyfiad iddo ef fel person y byddent hwy mewn cysylltiad ag ef. Ni fwriadodd erioed iddynt weddïo ‘yn enw ei ddysgeidiaeth’ neu yn enw ‘popeth y safai drostynt’. Ei fwriad oedd y byddent yn gweddïo ‘yn ei enw’ ef fel person byw. Gweddïau fyddent y byddai efe ei hun wedi eu hawdurdodi. Yn ddiamheuol, fe fyddai’r gweddïau hynny yn unol ‘â’r hyn y safai drosto’ ynghyd â ‘phopeth a ddatguddiodd amdano’i hun’. Does dim rhaid ofni dim ar y cyfrif hwnnw. Yr oedd ganddo, fodd bynnag, rywbeth cwbl benodol mewn golwg yn y fan hyn: y gallent hwy weddïo am yr hyn y bwriadai ef ei wneud mewn sefyllfaoedd penodol. Mewn geiriau eraill, roedd i’r ymadrodd a ddefnyddiodd ein Harglwydd yr un ystyr yn union â phan ddefnyddir ef ym mhob cyd-destun arall yn yr Ysgrythurau, sef rhywbeth a awdurdodwyd neu a orchymynnwyd gan berson arbennig: yn yr achos hwn, Iesu Grist.

Sut mae gwybod

Yn ddiamheuol, y cwestiwn a fyddai'n codi ym meddyliau'r disgyblion wrth wrando arno'n sôn am y posibilrwydd hwnnw, a hynny am y tro cyntaf erioed, oedd, sut y gallent hwy wybod beth oeddent i weddïo amdano 'yn ei enw', ac yntau ar fin eu gadael? Un o'r rhesymau pennaf sydd gennym dros gredu mai fel hyn y mae deall yr ymadrodd 'gweddïo yn enw Iesu Grist' yw y ffaith syml fod yr Arglwydd Iesu Grist wedi mynd yn ei flaen yn yr adnodau nesaf i ddelio â'r union fater hwnnw! Gan mai'r un fydd ei gyfarwyddiadau i'w ddisgyblion heddiw, fe dâl i ni sylwi'n wirioneddol ofalus ar ei eiriau. Yr hyn a ganfyddwn fydd bod Iesu Grist yn ei esboniad yn symud yn ôl ac ymlaen rhwng yr hyn y gallai yn gyfreithlon ei ddisgwyl gan ei ddisgyblion, fel eu cyfraniad hwy tuag at sylweddoli hyn, ar y naill law, a'r hyn fyddai ei gyfraniad yntau, ynghyd â'r Tad a'r Ysbryd Glân, ar y llaw arall.

(a) Eglurodd, i ddechrau, beth fyddai cyfraniad ei ddisgyblion:

'Os cerwch fi, chwi a gedwch fy ngorchmynion' (Ioan 14:15).

(b) Yna eglurodd beth fyddai ei gyfraniad yntau:

'A mi a weddïaf ar y Tad, ac efe a rydd i chwi Ddiddanydd arall, fel yr arhoso gyda chwi yn dragwyddol, Ysbryd y gwirionedd, yr hwn ni ddichon y byd ei dderbyn, am nad yw yn ei weled nac yn ei adnabod ef, ond chwi a'i hadwaenoch ef, oherwydd y mae yn aros gyda chwi ac ynoch y bydd efe' (Ioan 14:16 -17).

'Ni'ch gadawaf chwi yn amddifaid; mi a ddeuaf atoch chwi. Eto ennyd bach, a'r byd ni'm gwêl mwy, eithr chwi a'm gwelwch; canys byw wyf fi, a byw fyddwch chwithau hefyd' (Ioan 14:18-19).

'Y dydd hwnnw y gwybyddwch fy mod i yn fy Nhad, a chwithau ynof fi, a minnau ynoch chwithau' (Ioan 14:20).

(c) Dychwelodd at yr hyn a fyddai'n ddisgwyliedig gan ei ddisgyblion, gan ychwanegu rhagor o wybodaeth ynghylch yr hyn a wnâi yntau:

'Yr hwn sydd a'm gorchmynion i ganddo ac yn eu cadw hwynt, efe yw'r hwn sydd yn fy ngharu i. A'r hwn sydd yn fy ngharu i, a gerir gan fy Nhad i; a minnau a'i caraf ef ac a'm hamlygaf fy hun iddo' (Ioan 14:21).

(ch) Mewn ymateb i gwestiwn Jwdas, 'Arglwydd, pa beth yw'r achos yr wyt ar fedr dy amlygu dy hun i ni, ac nid i'r byd?' pwysleisiodd am y drydedd waith beth fyddai'n ei ddisgwyl o du'r disgyblion eu hunain, ac ychwanegodd fwy o wybodaeth ynghylch yr hyn a wnâi ef a'r Tad ar y diwrnod y cyfeiriodd ato eisoes:

'Os câr neb fi, efe a geidw fy ngair, a'm Tad a'i câr yntau, a nyni a ddeuwn ato ac a wnawn ein trigfa gydag ef. Yr hwn nid yw yn fy ngharu i, nid yw yn cadw fy ngeiriau; a'r gair yr ydych yn ei glywed, nid eiddof fi ydyw, ond eiddo'r Tad a'm hanfonodd i' (Ioan 14:23-24).

(d) Eglurodd iddynt fel y byddai'r Ysbryd Glân yn eu cynorthwyo nid yn unig i ddeall y geiriau hyn yn well ond *i ddeall a chofio ei holl eiriau:*

'Y pethau hyn a ddywedais wrthych, a mi yn aros gyda chwi. Eithr y Diddanydd, yr Ysbryd Glân, yr hwn a enfyn y Tad yn fy enw i, efe a ddysg i chwi bob peth, ac a ddwg ar gof i chwi bob peth a ddywedais i chwi' (Ioan 14:25-26).

(dd) Esboniodd i'w ddisgyblion beth oedd arwyddocâd ysbrydol yr hyn a addawodd iddynt:

'Yr wyf yn gadael i chwi dangnefedd; fy nhangnefedd yr ydwyf yn ei roddi i chwi. Nid fel y mae y byd yn rhoddi yr wyf fi yn rhoddi i chwi. Na thralloder eich calon ac nac ofned' (Ioan 14:27).

Cael gwybod gan y Tad beth fyddai ef yn ei wneud fel y gallai yntau wneud hynny gydag ef oedd cyfrinach ei dangnefedd pan oedd yma ar y ddaear. Ei fwriad yn awr

oedd eu bod hwythau'n cael profi y tangnefedd hwnnw. Digwyddai o ganlyniad iddynt gael mwynhau yr un math o berthynas ag ef ag a fwynhaodd efe â'i Dad. Ond sut fyddai hynny'n bosibl yn eu hachos hwy?

Rhan ei ddisgyblion

Dechreuodd Iesu Grist ar ei eglurhad trwy gyfeirio'n gyntaf at rywbeth a fyddai'n wir am y disgyblion eisoes ac a fyddai'n fawr o'u plaid: 'Os cerwch fi, chwi a gedwch fy ngorchmynion' (Ioan 14:15). Nid rhoi gorchymyn i'w ddisgyblion wneud hynny os oeddent yn ei garu a wnaeth, fel y cyfieithir ei eiriau gan rai – 'Os cerwch fi, cedwch fy ngorchmynion'. Cyfeirio yr oedd yn hytrach at rywbeth a fyddai'n neilltuol o berthnasol ac y gellid ei gymryd yn ganiataol – 'Os cerwch fi chwi a gedwch fy ngorchmynion'.

Ar wahân i'r ffaith fod y mwyafrif o'r esbonwyr, ar sail tystiolaeth y testunau Groeg, yn ein sicrhau mai felly y mae cyfieithu'r Groeg, mae strwythur ei ymresymiad yn y fan hyn yn awgrymu'n gryf mai hynny a ddywedodd. Gosod ochr yn ochr â'i gilydd yr hyn a wnâi'r disgyblion, ar y naill law, a'r hyn a wnâi yntau, ar y llaw arall, oedd ei fwriad.

Yr hyn a wnaeth i ddechrau oedd eu hatgoffa, yn garedig, fod ganddynt eisoes wybodaeth helaeth ynghylch beth fyddai ei ewyllys, *yn y gorchmynion a roes iddynt ac yn ei eiriau oll.* Ni fyddai'n briodol unrhyw amser iddynt ofyn am ddim 'yn ei enw' a fyddai'n mynd yn groes i'r wybodaeth honno. Ni fyddai yntau'n gwneud dim chwaith na fyddai'n gydnaws â hi. Felly, wrth geisio'r weddi y gallent ei gweddïo 'yn ei enw', dylai disgyblion Iesu Grist gymryd i ystyriaeth yn gyntaf bopeth a ddatguddiodd iddynt yn ei orchmynion ac yn ei air ynghylch yr hyn sy'n unol â'i ewyllys, ac yna cymhwyso'r hyn fyddai'n berthnasol o'r wybodaeth honno i'r sefyllfa y maent yn gweddïo drosti, gan ymddiried yn eu Harglwydd i'w harwain ymhellach.

Cyfeiriodd dair gwaith at y gwirionedd y byddai'r hwn a fyddai'n ei garu yn cadw ei orchmynion. Yr ail dro meddai – 'Yr hwn sydd a'm gorchmynion i ganddo ac yn eu cadw hwynt, efe yw yr hwn sydd yn fy ngharu i.' Y trydydd tro estynnodd y gosodiad i gynnwys nid ei orchmynion yn unig ond ei air yn ei gyfanrwydd – 'Os câr neb fi, efe a geidw fy ngair' (Ioan 14:23). Nid oes wiw didoli'r geiriau hyn oddi wrth eu cyd-destun. *Eu cynorthwyo i wybod sut y deuent o hyd i'r hyn a fyddai'n briodol iddynt ei weddïo*

'yn ei enw', fel y gallent hwythau wneud yr hyn y byddai efe yn ei wneud, oedd ei fwriad

A chymryd mai fel hyn y mae deall ei eiriau, gallwn ragweld y gallai dau anhawster yn hawdd godi ym meddyliau llawer o'i ddisgyblion. Yn gyntaf, pa ddisgybl iddo erioed a lwyddodd i 'gadw' ei orchmynion? Onid ydym yn methu gwneud hynny bob dydd o'n hoes? Yn ail, 'Os cerwch fi' a ddywedodd Iesu Grist. Mae'n ymddangos fel pe byddai'n ansicr a wnaent hynny ai peidio. Oni fyddai ganddo fwy o le i amau hynny yn ein hachos ni? Ystyriwn y ddau anhawster yn eu tro.

Anawsterau sy'n codi

Yn gyntaf, mae'n gwbl amlwg y bydd yn rhaid gofyn y cwestiwn 'Beth yn hollol a olygai Iesu Grist wrth yr ymadrodd "cadw" ei orchmynion neu "gadw" ei air?'. Mae'r cyfan yn troi o gylch y gair 'tirein' yn y Groeg, sef y gair a gyfieithir fel 'cadw' yn Gymraeg. Meddai Grimm yn ei *Greek English Lexicon of the New Testament*, 'it expresses watchful care and is suggestive of present possession'. (Mae yna ferf gryfach yn y Groeg, sef 'ffwlatso', gair, medd Grimm, sy'n golygu 'safe custody and implying assault from without', ond y gair arall ddefnyddiodd Iesu Grist.) Meddai Westcott am y ferf honno, yn ei esboniad ar Ioan 8:51, 'it conveys the idea of intense watching': hynny yw, o'i gyferbynnu â diystyru rhywbeth. (Yr ymadrodd a ddefnyddia Calfin i esbonio ystyr y ferf yn yr un adnod yw 'cadw fel trysor gwerthfawr'.) Ni cheir yn unman ddehongliad diogelach nag a geir yng nghyfrol werthfawr y Piwritan John Flavel, *The fountain of life* (Religious Tract Society, Llundain, 1671) yn ei sylw ar eiriau Iesu Grist yn Ioan 17:6, 'Eiddot ti oeddynt, a thi a'u rhoddaist hwy i mi, a hwy a gadwasant dy air di.' Dyma'i eiriau: 'By keeping his word understand the receiving of the word, in its sanctifying effects and influences into your hearts, and your perseverance in the profession and practising of it to the end.'

Os edrychwn ar enghreifftiau o'r un ferf yn cael ei defnyddio mewn cyd-destunau gwahanol yn yr Ysgrythur, gan gyfyngu ein hunain i Efengyl Ioan am y tro, gwelwn mai'r un ystyr sydd i'r ferf mewn gwirionedd â'r ystyr a roddir iddi ar lafar gwlad heddiw: cadw rhywbeth o'i gyferbynnu â'i wrthod neu ei golli. Cymerer yr enghreifftiau a ganlyn:

(a) Geiriau llywodraethwr y wledd yn y briodas yng Nghana Galilea: 'Tithau a *gedwaist* y gwin
da hyd yr awr hon' (Ioan 2:10).
(b) Cwyn y Phariseaid yn erbyn Iesu Grist: 'Nid yw y dyn hwn o Dduw, gan nad yw yn *cadw'r* Saboth' (Ioan 9:16).
(c) Teyrnged Iesu Grist i'r wraig a eneiniodd ei ben ag olew: 'Gad iddi. Erbyn dydd fy nghladdedigaeth y *cadwodd* hi hwn' (12:7).
(ch) Gweddi Iesu Grist yn yr oruwchystafell: 'Y Tad sancteiddiol, *cadw* hwynt trwy dy enw, yr hwn a roddaist i mi' (Ioan 17:11).

Gallwn fynd ymhellach a dweud bod Iesu Grist yn gwahaniaethu rhwng y rhai a oedd mewn gwirionedd yn ddisgyblion iddo a'r rhai oedd yn ei wrthod, yn nhermau'r un nodwedd hon.

Meddai am ei wir ddisgyblion:

(i) 'Os *ceidw* neb fy ymadrodd i, ni wêl efe farwolaeth yn dragywydd' (Ioan 8:51). (Pe byddai'r ferf 'cadw' yn golygu ufuddhau, fe fyddai Iesu Grist yn dysgu cyfiawnhad trwy weithredoedd!)
(ii) 'Cofiwch yr ymadrodd a ddywedais i wrthych, "Nid yw'r gwas yn fwy na'i feistr." Os erlidiasant fi, hwy a'ch erlidiant chwithau. Os *cadwasant* fy ngair i, eiddoch chwithau hefyd a gadwant' (Ioan 15:20).
(iii) 'Mi a amlygais dy enw i'r dynion a roddaist i mi allan o'r byd. Eiddot ti oeddynt, a thi a'u rhoddaist hwynt i mi, a hwy a *gadwasant* dy air di' (Ioan 17:6).
(iv) 'Os arhoswch ynof fi, *ac aros o'm geiriau ynoch*' (Ioan 15:7).

Cyfeirio yr oedd Iesu Grist, yn yr adnodau hyn, at rywbeth sy'n nodweddu pob un sydd wedi ei adnabod, ac o'i adnabod sy'n ei garu, sef croesawu a thrysori ei air (gan gynnwys ei orchmynion, gyda'r bwriad o'u rhoi mewn gweithrediad) o'u cyferbynnu ag eraill fyddai'n ei wrthod. Y gwir yw fod Iesu Grist yn ystyried yr agwedd yma tuag at ei orchmynion, a thuag at ei 'air' yn ei gyfanrwydd, nid fel rhywbeth a fyddai tu hwnt i gyrraedd ei ddisgyblion *ond fel un o nodweddion y gwir ddisgybl.* Sylwer fel y mae'n lledu'r trydydd cyfeiriad at ei garu a chadw ei orchmynion i gynnwys ei eiriau oll: 'Os

câr neb fi, *efe a geidw fy ngair,* a'm Tad a'i câr yntau, a nyni a ddeuwn ato ac a wnawn ein trigfa gydag ef' (Ioan 14:23).

Meddai am y sawl a oedd yn ei wrthod:

(a) 'Ac nid oes gennych chwi mo'i air ef *yn aros* ynoch; canys yr hwn a anfonodd efe, hwnnw nid ydych chwi yn credu ynddo' (Ioan 5:38).
(b) 'Mi a wn mai had Abraham ydych chwi; ond yr ydych chwi yn ceisio fy lladd i, am nad yw fy ngair i *yn cael lle ynoch chwi'* (Ioan 8:37).

Yn y rhestr (i - iv) cyfeiria Iesu Grist at un o nodweddion pob un o'r rhai, o'i adnabod, a fydd yn ei garu'n fawr – croesawant a thrysorant ei eiriau, gan gynnwys ei orchmynion y llwyr fwriadant ufuddhau iddynt. Yn y rhestr (a - b) eglura fod hyn yn absennol ym mywyd y rhai na ddaethant erioed i'w adnabod.

Dyma'r union beth sy'n peri cymaint o syndod i bob un a gaiff ei aileni. Lle'r oedd athrawiaethau'r ffydd cyn hyn yn llawn o drafferthion, darganfod eu bod bellach yn eu deall fel golau ddydd, ac yn eu credu. Bwriad dyfnaf eu bywyd yw eu cadw a'u gwarchod, nid eu gwrthod na'u hanwybyddu; ble mae hynny'n oblygedig ac yn ddisgwyliedig, plygu hefyd i'w gofynion.

Hyn hefyd sy'n peri bod y bobl y cyfeiriwn atynt mor unol eu barn ynghylch prif bynciau'r ffydd. Nid unol â'u cyfoeswyr yn unig y maent ond â phobl o'r un perswâd â hwy drwy'r cenedlaethau – llinach sy'n ymestyn yn ôl hyd at yr Eglwys fore a dysgeidiaeth yr Ysgrythurau. I eraill ymddangosant yn bobl hunandybus a digymrodedd eu hysbryd, yn enwedig pan ddarganfyddant eu bod yn gwrthod cydnabod mai cynrychioli 'safbwynt' yn unig a wnânt. Mynnant gyhoeddi bod y gwirionedd ganddynt.

Pan gaiff pechadur y gras i edifarhau am ei bechod a chredu yn Iesu Grist, daw'r Ysbryd Glân i'w galon i fyw. 'Ysbryd y gwirionedd', meddai Iesu Grist amdano, 'yr hwn ni ddichon y byd ei dderbyn, am nad yw yn ei weled nac yn ei adnabod ef'. Fel y byddai Iesu Grist yn esbonio i'w ddisgyblion ychydig yn ddiweddarach trwy ei ymbreswyliad yn eu calonnau, caent wybod eu bod yn yr Arglwydd Iesu Grist a'i fod yntau ynddynt hwy (Ioan 14:17). Addawodd ymhellach: 'efe a ddysg i chwi bob beth'. Ac yn eu hachos

hwy '[efe] a ddwg ar gof i chwi bob peth a ddywedais i chwi' (Ioan 14:26). 'Efe a'ch tywys chwi i'r holl wirionedd' (Ioan 16:13). Ef, ac nid neb arall, fyddai'n gyfrifol am y pendantrwydd a'r cadernid.

Cofiaf yr ymdeimlad o ryfeddod a gydiodd ynof pan ddigwyddodd hyn yn fy hanes innau. Yn sydyn sylweddolais fy mod yn deall yr holl emynau a'r adnodau a ddysgais er yn blentyn. Roedd darllen y Beibl fel darllen llyfr newydd sbon a'i ystyr yn wefreiddiol o glir. Nid ffrwyth unrhyw astudiaeth o'm heiddo ydoedd. Nid penderfynu fy mod yn mynd i gredu'r hyn a ddarllenwn yn y Beibl mohono chwaith. Yr oeddwn yn ei gredu ac yn ei ddeall mewn ffordd na ddigwyddodd imi erioed o'r blaen. Gynt dewiswn y rhannau hynny y gallwn eu credu a gwrthodwn y gweddill. Bellach roedd y cyfan yn dra gwerthfawr yn fy ngolwg. Maent yn aros felly hyd heddiw.

At y ffenomen hon y cyfeiriai Iesu Grist bob tro y cyfeiriai at ei ddisgyblion yn 'cadw' ei air (neu ei orchmynion) ac at ei air (neu ei eiriau) yn 'aros' ynddynt. Nid dweud yr oedd ei fod yn cyfrif eu bod wedi llwyddo i ufuddhau iddynt ym mhob manylder ond bod eu hosgo tuag atynt yn warchodol-geidwadol yn wastadol. Ei reswm dros grybwyll hyn, ac yna'i bwysleisio trwy ei ailadrodd ddwywaith drachefn, oedd am ei fod yn awyddus iddynt sylweddoli y byddai'r gyfalaf o wybodaeth ynghylch ei ewyllys a oedd ganddynt eisoes, yn ei air ac yn ei orchmynion, yn eu gosod dan fantais fawr i wybod beth fyddai'r weddi yr oeddent i'w gweddïo 'yn ei enw'. Fe fyddai'n fan cychwyn ardderchog – ac yn angor diogel i lynu wrtho. Yna, fe wnâi yntau ei ran.

Cyn troi at ei ddisgrifiad o'r hyn a wnâi yntau, rhown ystyriaeth i'r ail anhawster a allai godi ym meddwl rhai Cristnogion cywir wrth ddarllen y geiriau cyntaf hyn a lefarodd Iesu Grist. Onid oeddent yn bwrw amheuaeth ar ddilysrwydd a pharhad eu cariad tuag ato? 'Os cerwch fi, chwi a gedwch fy ngorchmynion' Nid oedd unrhyw sicrwydd y gwnaent barhau i'w garu – ac felly gadw ei orchmynion

Yr ail anhawster

Gallwn ddweud yn ddibetrus nad bwrw amheuaeth ar eu cariad yr oedd Iesu Grist ond adeiladu arno! 'Os cerwch fi, chwi a gedwch fy ngorchmynion'.Yn sicr yr oedd am iddynt wybod mai'r hyn a ddymunai ganddynt yn anad dim, os oeddent yn ei garu, oedd eu bod yn cadw ei orchmynion. Dyna'n union yr hyn a ddywedodd yn yr ail gyfeiriad:

‘Yr hwn sydd a’m gorchmynion i ganddo ac yn eu cadw hwynt, efe yw’r hwn sydd yn fy ngharu i’ (Ioan 14:21). Mewn geiriau eraill, ‘Mae hwnnw wedi fy adnabod ac wedi deall cymaint y mae hynny’n ei olygu i mi. Am ei fod yn fy ngharu, mae’n awyddus i wneud yr hyn sy’n rhyngu bodd yn fy ngolwg.’ Mewn ysbryd cadarnhaol y cyfeiriodd at yr un gwirionedd y drydedd waith, ‘Os câr neb fi, efe a geidw fy ngair’ (Ioan 14:23).

Byddai’n gywirach o lawer ddweud am eiriau Iesu Grist eu bod nid yn bwrw amheuaeth ar y posibilrwydd eu bod yn ei garu ond eu bod yn dangos ei fod yn cymryd yn ganiataol y byddai hynny’n wir yn eu hachos hwy. A pha ryfedd ei fod yn gwneud hynny ac yntau newydd eu hysbysu ei fod yn eu gadael i fynd i baratoi lle iddynt yn y nefoedd? Ef fyddai eu ‘bywyd’ hefyd yn ogystal â bod eu ‘ffordd’ at y Tad. Roeddent yn sicr o’i garu. Meddai yntau, ‘Os cerwch fi, chwi a gedwch fy ngorchmynion.’

Dyna’r ffordd y dylid dehongli’r cyfeiriadau eraill a wnaeth at y gwirionedd hwn: er enghraifft, Ioan 15:7a a 10. Yn wir, dyna’r ffordd y dylid edrych ar bob un y mae lle i gredu eu bod wedi dod i adnabyddiaeth bersonol o’r Arglwydd Iesu Grist ac wedi rhoi eu hunain iddo. Fe fyddant yn ei garu. Meddai Pedr yn hyderus am y credinwyr yr oedd yn eu cyfarch yn ei epistol cyntaf: ‘Yr hwn, er nas gwelsoch, yr ydych yn ei garu; yn yr hwn, heb fod yr awron yn ei weled, ond yn credu, yr ydych yn mawr lawenhau â llawenydd anhraethadwy a gogoneddus, gan dderbyn pen draw eich ffydd, sef iachawdwriaeth eich eneidiau’ (1 Pedr 1:8). Onid â’r gwirionedd hwn y cysurodd Pedr ei hun pan gafodd ei holi gan Iesu Grist wedi iddo ei wadu dair gwaith? ‘Arglwydd . . . Ti a wyddost fy mod i yn dy garu di’ (Ioan 21:17). Yr oedd hynny, o leiaf, yn wir amdano. Fe fyddant hefyd yn cadw ei orchmynion ac yn ceisio’u cyflawni.

Dywed Ioan am Iesu Grist, ‘Yr Iesu a wyddai o’r dechreuad pwy oedd y rhai nid oedd yn credu, a phwy oedd yr hwn a’i bradychai ef’ (Ioan 6:64). Gallwn ninnau ychwanegu na allai Iesu Grist wybod bod y pethau a ddywedodd am ei ddisgyblion wrth siarad â’i Dad nefol ar weddi ychydig yn ddiweddarach y noswaith honno yn wir amdanynt (Ioan 17:4, 6-8, 10b, 22- 23a) heb wybod hefyd eu bod yn ei garu. Profi y mae ei eiriau ei fod yn sylweddoli hynny ac yn adeiladu ei gyfarwyddiadau ar y sylfaen honno. Ei reswm dros dynnu sylw ei ddisgyblion at yr hyn a ddymunai oedd nid yn gymaint bwysleisio pa mor bwysig oedd hyn yn ei olwg ond er mwyn eu hatgoffa, yn wahanol i bawb arall, y byddai ganddynt hwy eisoes yn ei orchmynion a’i air gyfalaf helaeth o wybodaeth ynghylch yr hyn fyddai ei ewyllys, cyfalaf a fyddai o fantais fawr iddynt wrth

geisio dod o hyd i'r weddi yr oeddent i'w gweddïo 'yn ei enw'. Os oeddent yn ei garu, eu hagwedd tuag at ei orchmynion (a'i 'air' yn ei gyfanrwydd) fyddai eu gwarchod a'u harddel yn hytrach na'u gwrthod!

Os hynny fyddai rhan a chyfraniad y disgyblion, 'cadw ei orchmynion a chadw ei air', beth a wnâi Iesu Grist ei hun i'w cynorthwyo i weddïo deisyfiadau 'yn ei enw' fel y gallent wneud 'yr hyn y byddai efe yn ei wneud'? Awn ymlaen yn y penodau nesaf i ystyried yr addewidion rhyfeddol a roes iddynt.